# DISGRIFIAD SWYDDOGAETH: DIRPRWY GANGHELLOR/GANGELLORION;

Penodir Dirprwy Gangellorion Prifysgol Aberystwyth gan Gyngor y Brifysgol ac maent yn cyflawni swyddogaethau yn rhinwedd eu swyddi er anrhydedd fel y byddont yn cael eu dirprwyo gan y Canghellor neu eu pennu gan y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **CYFNOD YN Y SWYDD:** | Tair blynedd ac, yn amodol ar gytundeb rhwng yr unigolyn a Chyngor y Brifysgol, bydd modd ailbenodi am un tymor arall am hyd at dair blynedd. |
| **YMRWYMIAD AMSER:** | Amcangyfrifir y bydd yn gyfwerth â hyd at 4 diwrnod y flwyddyn am swyddogaethau Dirprwy Ganghellor. |
| **CYDNABYDDIAETH:** | Swyddogaeth ddi-dâl yw hon. Serch hynny, gellir hawlio ad-daliad am gostau sy'n cael eu gwario wrth gyflawni dyletswyddau cysylltiedig â'r gwaith. |

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

Bydd y Dirprwy Gangellorion:

1. Yn arfer y swyddogaethau a ddirprwyir iddynt gan y Canghellor (sydd yn rhinwedd ei swydd er anrhydedd yn cyflawni swyddogaethau sy'n cynnwys llywyddu yng nghynulliadau graddio'r Brifysgol a chadeirio cyfarfod blynyddol y Llys).

2. Yn arfer holl swyddogaethau'r Canghellor pan fo'r Canghellor yn absennol, neu os bydd y swydd honno yn wag.

3. O bryd i'w gilydd, ar gais, yn cynrychioli'r Brifysgol yn allanol, ar ôl cael cyfarwyddyd llawn gan y Brifysgol er mwyn iddynt allu cyflawni'r swyddogaeth honno yn effeithiol.

4. Yn llwyr ymroddedig yn bersonol i Addysg Uwch a gwerthoedd, nodau ac amcanion Prifysgol Aberystwyth.

6. Sefydlu perthynas waith adeiladol a chefnogol â'r Canghellor, unrhyw Ddirprwy Gangellorion eraill, a Chadeirydd y Cyngor, yn ogystal â'r Is-Ganghellor ac Ysgrifennydd y Brifysgol. Serch hynny, rhaid i'r Dirprwy Gangellorion gydnabod hefyd y ffiniau priodol rhwng arweinyddiaeth er anrhydedd, llywodraethu, a rheoli gweithredol.

Sylwer nad yw'r rhestr uchod yn ddisgrifiad cyflawn o ddyletswyddau'r swyddogaethau, ac ni fwriadwyd iddi fod.

**MANYLEB YR UNIGOLYN**

Disgwylir i'r unigolion a benodir yn Ddirprwy Gangellorion weithredu yn deg ac yn ddiduedd er budd y Brifysgol gyfan bob amser, a defnyddio barn annibynnol a chynnal cyfrinachedd fel y bo'n briodol.

Mae natur swyddogaeth y Dirprwy Gangellorion yn golygu ei bod yn addas i unigolion sy'n byw o fewn pellter teithio rhesymol i Brifysgol Aberystwyth, ac sy'n gallu bod yn hyblyg er mwyn trefnu eu swyddogaethau yn y Brifysgol o gwmpas eu hymrwymiadau personol eraill, a hynny weithiau ar fyr rybudd.

### GOFYNION IAITH

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i llwyr ymrwymo i'w dyletswydd i hyrwyddo a hybu'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae'n annog y rhai a benodir yn Ddirprwy Gangellorion i gydnabod a chefnogi'r ymrwymiad hwnnw.

Yn unol â Safonau Iaith y Brifysgol, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal er mwyn rhoi i bob unigolyn – y staff, y myfyrwyr neu'r cyhoedd – yr hawl a'r cyfle i gyfathrebu â'r Sefydliad, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn eu dewis iaith.

Mae cyfarfodydd pwyllgorau ar y lefel uchaf yn y Brifysgol - gan gynnwys cyfarfod blynyddol y Llys - yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, drwy gynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd. Felly, mae'n rhaid i'r Dirprwy Gangellorion fod yn gyfforddus wrth weithio mewn amgylchedd dwyieithog.

Wrth ystyried yr enwebiadau a ddaw i lawr, bydd y Pwyllgor Dewis yn ystyried cydbwysedd ieithyddol y Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion i gyd, a bydd o leiaf un o blith y Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion yn rhugl eu Cymraeg (lefel C2[1]).

## ENWEBIADAU

Ar hyn o bryd gwahoddir enwebiadau (gan gynnwys hunan-enwebiadau) am un neu fwy o Ddirprwy Gangellorion ym Mhrifysgol Aberystwyth, a disgwylir i'r unigolion a benodir gychwyn ar eu swyddogaeth yn ystod 2019. Dylai'r enwebiadau ddisgrifio profiad yr unigolion a sut maent yn addas i'w penodi. Dylid eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Brifysgol, ynghyd â CV, erbyn **17:00 ddydd Gwener, 04 Mehefin 2021**.

### CYDRADDOLDEB AC AMRYWIOLDEB

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb, ac yn ymdrechu i fod yn gynhwysol, gan roi gwerth ar amrywioldeb ei staff, ei myfyrwyr a'i chymuned. Rhoddir croeso arbennig i'r rhai sy'n enwebu menywod, yn ogystal ag unigolion cymwys o gefndiroedd amrywiol. Lle bo'n briodol, gwneir unrhyw addasiadau rhesymol fel y gall yr unigolion a benodir gyflawni eu dyletswyddau.

### GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mae'n ofynnol i unigolion a benodir neu a ailbenodir yn Ddirprwy Gangellorion ar Brifysgol Aberystwyth, cyn gwneud unrhyw benodiad, ddatgelu unrhyw wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'w swyddogaeth fel Dirprwy Ganghellor pe baent yn cael eu penodi. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fudd, yn ariannol neu fel arall, sy'n debygol, neu y gellid tybio ei fod yn debygol, o amharu ar farn annibynnol yr unigolyn. Rhaid i wybodaeth o'r fath fod yn hysbys i'r Cyngor wrth benodi neu ailbenodi.

### CYNEFINO

Mae pob un a benodir yn mynd drwy broses gynefino a deilwrir yn unswydd at eu hanghenion unigol, er mwyn sicrhau bod gan yr unigolyn a benodir ddealltwriaeth dda am werthoedd, nodau ac amcanion Prifysgol Aberystwyth.

Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol
Adran Llywodraethu
Prifysgol Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
SY23 3BF

01970 62 2114

ysgrifennydd@aber.ac.uk

---

[1] Gweler https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/welsh-standards/.